Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Lleu

**Penygroes**
**Caernarfon**
**Gwynedd**
**LL54 6RE**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Bro Lleu

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Bro Lleu |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 199 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 150 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 21 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 22.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 33.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 78.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2015 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 21/01/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolydiad | 24/04/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Bro Lleu yn ysgol hapus, gyfeillgar a chynhwysol sy’n rhoi pwyslais cryf ar barchu pob aelod o’r gymuned. Mae ei gweledigaeth o roi’r cyfle gorau i bob disgybl yn treiddio drwy holl weithgarwch yr ysgol. O ganlyniad, mae agweddau’r disgyblion at eu dysgu yn gadarn a’u hymddygiad yn ardderchog.

Mae lles y disgyblion a’r staff yn cael blaenoriaeth amlwg yn yr ysgol. Mae gan staff adnabyddiaeth gadarn o anghenion pob disgybl ac maent yn olrhain eu cynnydd yn fanwl iawn. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol o’u mannau cychwyn.

Mae staff yn cynnwys safbwyntiau’r disgyblion a’r rhieni, ynghyd â’r gymuned leol, wrth ddatblygu cwricwlwm diddorol i’r disgyblion. Mae’r cwricwlwm yn canolbwyntio’n gryf ar ymdeimlad o berthyn i’r ardal leol, gyda chyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn fedrus. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn mwynhau eu gwersi ac yn barod iawn i drafod eu gwaith.

Mae athrawon yn holi disgyblion yn fedrus ac yn cynnig adborth llafar gwerthfawr i’r disgyblion er mwyn cynnal ac ymestyn eu dysgu. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn rhan annatod o wella eu gwaith. Ar y cyfan, mae safonau addysgu yn gadarn ar draws yr ysgol. Yn yr arfer orau, mae staff yn cynllunio gweithgareddau ar draws y cwricwlwm sy’n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion fod yn ddysgwyr chwilfrydig ac annibynnol.

Agwedd nodedig o waith yr ysgol yw’r modd mae’r pennaeth wedi sefydlu trefniadau cadarn i fonitro a gwerthuso’r dysgu a’r ddarpariaeth. Mae’r staff cyfan wedi ymrwymo’n llwyr i’r broses sy’n golygu eu bod yn gweithio mewn hinsawdd o groesawu sialens a her i ddatblygu a gwella eu harferion yn barhaus. O ganlyniad, mae diwylliant cadarnhaol o hunanwella yn bodoli yn yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Datblygu cyfleoedd i'r disgyblion ieuengaf gryfhau eu medrau creadigol ac annibynnol tu fewn a thu allan y dosbarth

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â datblygu diwylliant ysgol fel sefydliad sy'n hunanwella, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Maent yn datblygu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau yn effeithiol mewn cyd-destunau diddorol sy'n eu hannog i fwynhau dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus, yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac oedolion ac yn ymateb yn frwd i'w gwaith. O oedran cynnar, mae medrau cyfathrebu Cymraeg llawer o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau siarad yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn siarad yn aeddfed gydag ystod naturiol o eirfa. Maent yn ymateb yn dda i eraill yn ystod trafodaethau ac yn adeiladu ar syniadau ei gilydd.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda o oedran cynnar. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau unigol a geiriau syml sy'n gyfarwydd iddynt yn hyderus. Mae'r disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau darllen yn fedrus wrth ymchwilio i feysydd penodol. Erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae llawer yn darllen yn glir a gyda mynegiant da yn y ddwy iaith.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn effeithiol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau modur mân priodol gan ddefnyddio amrywiaeth o offer, er enghraifft drwy wehyddu blodau a thrwy ddefnyddio pipet i fesur dŵr. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn adeiladu ar eu medrau'n llwyddiannus gan ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd ac at wahanol ddibenion. Wrth i'w medrau ddatblygu, maent yn defnyddio ystod dda o atalnodi, yn sillafu geiriau mwy cymhleth yn gywir ac yn dewis geirfa'n bwrpasol i ennyn diddordeb. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn ailysgrifennu straeon a chwedlau cyfarwydd, ac erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n fwyfwy estynedig yn y Gymraeg a'r Saesneg gan ddewis geiriau'n bwrpasol i ennyn diddordeb. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd yn hyderus ac yn annibynnol ar draws y cwricwlwm. Ar y cyfan, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu arddull llawysgrifen rugl, daclus ac yn cyflwyno eu gwaith gyda gofal a pharch.

Mae medrau mathemateg llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dechrau adnabod rhifau ac yn defnyddio'u medrau rhifedd mewn cyd-destunau gwahanol, er enghraifft wrth drin a thrafod arian wrth brynu nwyddau yn y siop arddio. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn datblygu amrediad buddiol o fedrau mathemategol yn gadarn. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn cymhwyso eu medrau rhif yn gyson mewn gweithgareddau dysgu perthnasol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 3, mae'r disgyblion yn defnyddio amryw fesuriadau yn gynyddol gywir wrth gydbwyso trysor ac ymchwilio i gynhwysedd grog y môr ladron.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn bwrpasol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. O oedran cynnar, maent yn dechrau defnyddio'r medrau

hyn mewn ffordd adeiladol mewn ystod gyfoethog o brofiadau dysgu ar draws y cwricwlwm, er enghraifft drwy ddefnyddio medrau codio i symud roced. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn defnyddio eu medrau digidol yn dda iawn i gefnogi ymchwil annibynnol, er enghraifft drwy gyflwyniadau amlgyfrwng creadigol, wrth ddefnyddio a dadansoddi bas data, creu gwefannau a thrwy gyfansoddi cerddoriaeth ddigidol.

Mae bron bob disgybl yn datblygu eu medrau corfforol yn dda ar draws yr ysgol. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n hybu eu hiechyd a'u lles yn effeithiol, er enghraifft yn ystod sesiynau ioga neu wersi addysg gorfforol yn y ganolfan hamdden leol.

Ar draws yr ysgol, ar y cyfan, mae disgyblion yn elwa o gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau creadigol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau i greu diorama o amgylchedd dan y môr ac mae disgyblion hynaf yr ysgol yn cymharu â dadansoddi gwaith yr arlunydd Kyffin Williams. Er hynny, nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion ieuengaf ddatblygu eu medrau creadigol yn annibynnol.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob disgybl yn gyfeillgar ac yn gwrtais ac yn trin eu cyfoedion a staff gyda pharch. Maent yn groesawgar iawn tuag at ymwelwyr, yn enwedig wrth gymryd rhan mewn sgyrsiau am y profiadau dysgu y maent yn eu mwynhau yn yr ysgol.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn trafod eu teimladau gydag oedolion yn ddyddiol, sy'n cyfrannu'n effeithiol tuag at gefnogi eu hyder a'u lles emosiynol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn rhydd rhag unrhyw gam-drin corfforol, emosiynol a geiriol a'u bod yn cael eu parchu a'u trin yn deg.

Mae disgyblion yn canmol y berthynas gadarnhaol sy'n bodoli rhyngddynt â staff yr ysgol. O ganlyniad, mae gan bron bob un disgybl ymddiriedaeth gadarn yn naws gynhwysol yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n falch o'u hysgol ac yn awyddus i rannu eu llwyddiannau gydag ymwelwyr. Mae parch disgyblion ac ymagwedd o gynhwysiant tuag at ei gilydd ac eraill yn nodwedd gref o les y disgyblion. Yn ogystal, mae'r disgyblion hŷn yn siarad yn bositif am yr ymdeimlad o falchder o gael eu gwobrwyo'n wythnosol drwy ddathlu llwyddiannau sydd uwchlaw'r disgwyl a hefyd drwy ganmoliaeth barhaus gan y staff.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol ac yn dangos aeddfedrwydd yn y ffordd maent yn goresgyn heriau ac yn datblygu gwytnwch. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn esbonio'n fanwl sut i ddefnyddio'r mynydd rhew i ddatblygu meddylfryd twf a disgyblion Blwyddyn 6 yn trafod yn hyderus sut i ddyfalbarhau wrth sôn am fethiannau enwogion ar draws y byd.

Mae bron pob un disgybl yn datblygu medrau corfforol ac yn gwneud dewisiadau iach mewn modd effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion yn datblygu eu ffitrwydd yn naturiol trwy'r defnydd o'r offer amser chware, gan gynnwys y 'gym' a'r fframiau dringo. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth gadarn o'r byd digidol a sut i gadw eu hunain, ac eraill, yn ddiogel ar-lein.

Mae'r cynghorau disgyblion yn weithgar ac yn dangos dealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac yn chwarae rhan bwysig wrth wneud penderfyniadau sy'n cael effaith sylweddol ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion y cyngor eco wedi lleihau defnydd yr ysgol o ynni drwy gael un diwrnod yr wythnos ble nad oes defnydd o gyfrifiaduron na gliniaduron.

Mae ymddygiad bron pob disgybl yn ystod gweithgareddau ac o amgylch yr ysgol yn rhagorol. Mae bron pob disgybl yn dilyn rheolau'r ysgol, yn cerdded yn drefnus o amgylch yr ysgol, yn dal drysau i'w gilydd ac oedolion ac yn dangos parch tuag at ei gilydd wrth chwarae'n rhydd.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol iawn tuag at eu dysgu. Maent yn frwdfrydig ac yn dangos diddordeb yn eu gwaith. Mae mwynhad a chymhelliant y disgyblion tuag at eu dysgu yn gryfder. O ganlyniad, mae disgyblion yn siarad yn wybodus gyda lefel diddordeb fedrus am eu gwaith, er enghraifft wrth i ddisgyblion siarad am y planedau a chyflwyno dealltwriaeth o bellter y planedau mewnol ac allanol.

Ar y cyfan, mae medrau annibynnol y disgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddo i ganolbwyntio am gyfnodau estynedig ar dasgau. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn gweithio'n fwyfwy annibynnol wrth ddewis tasgau a thrwy ddatblygu eu creadigrwydd ar draws y cwricwlwm, er enghraifft drwy ddewis a dethol sut i gyflwyno gwybodaeth am eu themâu mewn modd diddorol.

Yn ddiweddar, mae'r disgyblion wedi addasu eu dulliau o ymateb i adborth. Mae bron pob un disgybl yn dangos ymateb cadarnhaol i adborth llafar staff ac yn trafod eu cryfderau a meysydd i'w gwella yn hyderus. Mae'r disgyblion yn rhan annatod o brosesau hunanwella'r ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn cydweithio'n effeithiol mewn modd sy'n parchu cyfraniad eraill mewn tîm. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 2 a Blwyddyn 5, mae disgyblion yn dosrannu cyfrifoldebau yn ystod sesiynau drama a cherddoriaeth er mwyn sicrhau bod gan bawb ran mewn modd cefnogol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm cyfoethog sy'n adlewyrchu ei natur a'i chyd-destun lleol. Mae'r athrawon yn casglu syniadau gan y disgyblion, y rhieni a'r gymuned leol wrth greu cwricwlwm perthnasol i'r disgyblion. O ganlyniad, maent yn darparu profiadau dysgu sy'n ysbrydoli disgyblion ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau'r disgyblion at ddysgu.

Mae gweithgareddau dysgu wedi eu cynllunio'n fedrus ac yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth, medrau a phrofiadau disgyblion i sicrhau dilyniant wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol. Mae medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion yn cael eu hatgyfnerthu'n gyson drwy themâu diddorol a pherthnasol, gan gynnwys cynllunio gwaith annibynnol i ddisgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae'r ystod o weithgareddau ar draws y cwricwlwm yn cefnogi cynnydd cryf o ran hyder a medrau'r disgyblion.

Ar y cyfan, mae'r staff yn cynllunio profiadau dysgu yn yr awyr agored yn briodol i gefnogi'r cwricwlwm. Yn yr arfer orau, mae disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol drwy brofiadau sy'n ennyn eu defnydd o'u medrau llythrennedd a rhifedd,

er enghraifft drwy ail-greu stori gyfarwydd ar y llwyfan neu drwy ddefnyddio cyfesurynnau i ddarganfod trysor ar gaeau'r ysgol.

Mae athrawon a chymorthyddion yn cynnig llawer o weithgareddau dysgu er mwyn datblygu medrau addysg bersonol a chymdeithasol y disgyblion yn dda. Drwy ymweliadau a chysylltiadau cymunedol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth glir o faterion yn ymwneud â'u lles, eu dewisiadau o fyw yn iach a'u hymddygiad. Mae gan yr ysgol ethos cryf o hyrwyddo a chefnogi lles corfforol ac emosiynol y disgyblion.

Mae gan yr holl staff berthynas waith ofalgar a chynhyrchiol â disgyblion. Maent yn trin bob disgybl gyda charedigrwydd a pharch sydd yn creu amgylchedd cynhwysol a gofalgar drwy'r ysgol ble mae lles a datblygiad yn cael sylw bwriadus. Nodwedd gref o'r addysgu yw sut mae'r staff yn meithrin agweddau cadarnhaol at ddysgu ymysg disgyblion, gan greu ethos ble maent yn teimlo'n hyderus i ofyn cwestiynau, i fynegi barn a pheidio â bod ofn gwneud camgymeriadau. Mae'r staff cyfan yn cydweithio'n effeithiol i feithrin agweddau cadarn o ddyfalbarhau a gwytnwch ymhob disgybl. Mae hyn yn caniatáu i ddisgyblion ddatblygu'n  ddysgwyr brwdfrydig ac uchelgeisiol.

Yn yr arfer orau, mae'r athrawon yn datblygu'r gweithgareddau dysgu gyda chyflymder addas. Maent yn aml yn defnyddio technegau holi amrywiol yn fedrus sydd yn ymestyn dealltwriaeth disgyblion o wahanol gyd-destunau dysgu. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn gwybod beth sydd angen ei wneud ac yn deall pan fyddant wedi llwyddo. Mae staff yn defnyddio ystod o adnoddau diddorol i ennyn diddordeb a chwilfrydedd disgyblion, er enghraifft wrth greu siop arddio yn ardal allanol y dosbarthiadau ieuengaf, neu ddarparu gwahanol drysorau i ddisgyblion eu pwyso. Ar y cyfan, mae'r cymorthyddion yn defnyddio eu medrau i gyfrannu'n effeithiol at ddatblygu dysgu'r disgyblion.

Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd cyson i ddisgyblion hŷn yr ysgol  weithio'n annibynnol ac yn cynllunio sesiynau gwerthfawr iddynt gydweithio â'i gilydd i ddatrys heriau. Ar adegau, mae staff yn gor-arwain gweithgareddau'r plant ieuengaf gan lesteirio eu creadigrwydd a'u gallu i ymchwilio, arbrofi a dysgu'n annibynnol tu fewn a thu allan i'r dosbarth.

Mae staff yn cynnig adborth llafar gwerthfawr i'r disgyblion er mwyn cynnal ac ymestyn eu dysgu ar y pryd, er enghraifft wrth addysgu disgyblion i ddefnyddio offer mesur yn gywir. Maent yn darparu adborth ysgrifenedig syml ond effeithiol ac mae'r disgyblion yn ymateb iddo yn rheolaidd, sy'n cynnig arweiniad clir iddynt am y camau nesaf yn eu dysgu. Rhoddir cyfleoedd cyson i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn unol â disgwyliadau'r gweithgaredd. O ganlyniad, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ymateb yn hyderus am beth sy'n dda yn eu gwaith a'r cynnydd y maent yn ei wneud.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chartrefol. Mae'r staff yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi, a pharch yn llwyddiannus. Mae ymdeimlad ac ethos gofalgar tuag at bob disgybl. Mae'r staff yn creu amgylchedd dysgu eithriadol o gynnes a diogel lle mae'r disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn annog y disgyblion i ystyried safbwyntiau eraill yn sensitif, i gydnabod a pharchu amrywiaeth a phwysigrwydd gwerthoedd.

Mae trefniadau cadarn a hynod effeithiol i gefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol bron bob disgybl. Mae’r staff yn meithrin perthynas gadarn â’r disgyblion sy’n hyrwyddo agweddau buddiol at eu lles. Er enghraifft, mae staff yn cefnogi disgyblion yn ddyddiol yn dilyn cofnod electronig o’u teimladau, yn ogystal â darparu amrywiaeth o strategaethau er mwyn sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu llythrennedd emosiynol. Mae’r ddarpariaeth yn hyrwyddo a chefnogi ymddygiad ardderchog disgyblion yn hynod lwyddiannus.

Mae darpariaeth hynod effeithiol i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan y cydlynydd ADY brosesau trylwyr i adnabod anghenion addysgol a lles disgyblion. Mae staff yn myfyrio ar, ac yn gwerthuso, darpariaeth a chynnydd disgyblion yn gyson, er enghraifft trwy gyfarfodydd wythnosol rhwng y cydlynydd a’r cymorthyddion. O ganlyniad i gynllunio’r ddarpariaeth yn fedrus, mae disgyblion yn derbyn cefnogaeth sy’n diwallu eu hanghenion yn fuddiol.

Mae’r ysgol yn cyfathrebu’n dda â rhieni a gofalwyr ynglŷn â threfniadau ADY, gyda disgyblion yn rhan annatod o’r broses. Mae’r ysgol yn ystyried barn a theimladau’r plentyn, y rhieni a gofalwyr yn llawn fel rhan o’r trefniadau gwerthfawr. Mae gan staff drefniadau bwriadus ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion ADY sy’n ymwneud â’u targedau yn eu cynlluniau datblygu unigol, a’u cynnydd o’u mannau cychwyn. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol â’u dysgu neu eu lles yn gwneud cynnydd da.

Mae staff yn hybu pwysigrwydd bwyta’n iach ac yn annog ffitrwydd corfforol drwy amrediad o weithgareddau addysg gorfforol, sy’n cynnwys clybiau chwaraeon allgyrsiol, fel y clwb pêl-droed, rygbi a phêl-rwyd. Mae'r meysydd chwarae eang yn caniatáu staff i drefnu a darparu ystod o weithgareddau awyr agored sy’n cyfrannu'n dda at les a mwynhad disgyblion mewn gweithgareddau ymarfer corff. Mae'r ddarpariaeth hefyd yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o sut i wneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw ac o bwysigrwydd cadw’n heini yn llwyddiannus.

Mae’r ddarpariaeth yn cynorthwyo pob disgybl i gymryd rhan mewn penderfyniadau ysgol gyfan yn effeithiol. Er enghraifft, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynegi barn am eu dysgu drwy gynllunio ar gyfer themâu dosbarth a thrwy waith y cynghorau disgyblion yn datblygu'r maes chwarae.

Mae'r trefniadau addoli ar y cyd yn cynnig cyfleoedd buddiol i gefnogi disgyblion i ddysgu am faterion sy’n ymwneud â chredoau amrywiol yn ogystal â myfyrio ar gwestiynau sylfaenol a'u gwerthoedd eu hunain. Cynhelir gwasanaethau cyson a darperir cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan weithredol ynddynt. Mae hawliau plant yn rhan gyson o ffocws gwasanaethau.

Mae’r staff yn helpu bron bob disgybl i ddeall materion yn ymwneud â gwerthoedd, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn fwriadus. Mae hyn yn treiddio trwy bob agwedd o fywyd a gwaith y disgyblion yn effeithiol, ac mae diwylliant cynhwysol amlwg o fewn yr ysgol, gyda phwyslais cryf ar barch. Yn ogystal, mae diwylliant yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol, er enghraifft drwy gynnig amrywiaeth o gyfleoedd priodol i ddisgyblion archwilio syniadau newydd. Er enghraifft, yn ddiweddar, bu disgyblion ar frig yr ysgol yn cymharu hawliau dinasyddion Cymru a Qatar yn ystod cwpan y byd mewn modd priodol.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddiogelu disgyblion. Mae'r staff yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch yn hynod effeithiol ac nid yw'r trefniadau'n peri pryder. Mae'r drefn ar gyfer adrodd pryderon diogelu am ddisgyblion yn gadarn ac mae'r staff yn gwneud atgyfeiriadau amserol i asiantaethau allanol, pan fo hynny'n briodol. Mae gan yr ysgol brosesau cadarn ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb disgyblion.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae arweinyddiaeth gadarn, ddeallus ac effeithiol y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae arweinwyr wedi sicrhau mewnbwn gwerthfawr o ystod eang o randdeiliaid wrth fynd ati i lunio weledigaeth gytûn. Maent wedi gwrando ar leisiau disgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr yn ogystal â barn busnesau lleol ac aelodau o'r gymuned. Golyga hyn fod eu dyhead i gefnogi, ysgogi ac ysbrydoli bob un disgybl i fod y gorau y gallent fod yn berthnasol i bawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol.

Mae gan yr arweinwyr amcanion strategol clir ac maent yn deall eu cyfrifoldebau'n dda. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'u hunain, y staff a'r disgyblion, ac o ganlyniad, mae ethos gofalgar, cwrtais a gweithgar yn treiddio trwy holl weithgareddau'r ysgol. Mae arweinwyr yn ystyried lles staff o ddifri ac mae trefniadau ar waith i ofalu am eu hiechyd corfforol a meddyliol. Mae'r math hwn o drefniadau yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth yr ysgol, er enghraifft wrth leihau absenoldebau staff dros amser.

Mae'r pennaeth wedi sefydlu trefniadau cadarn i fonitro a gwerthuso'r dysgu a'r ddarpariaeth. Mae'r staff cyfan wedi ymrwymo'n llwyr i'r broses sy'n golygu eu bod yn gweithio mewn hinsawdd sy'n croesawu sialens a her i ddatblygu a gwella eu harferion yn barhaus. Mae'r staff a'r llywodraethwyr yn cyfrannu'n effeithiol at nifer eang o ffynonellau tystiolaeth er mwyn creu darlun clir ac onest o berfformiad yr ysgol. Golyga hyn fod arweinwyr a staff yn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yr ysgol yn arbennig o dda ac yn ymateb yn brydlon iddynt. Er enghraifft, drwy broses o graffu rheolaidd ar waith a chynnydd disgyblion, mae athrawon yn medru adnabod agweddau sydd angen sylw pan maent yn codi, fel dirywiad yn niwyg gwaith disgyblion. Drwy ffocysu ar yr agwedd benodol hon, maent yn medru codi safonau yn gyflym. Mae hyn yn agwedd nodedig o waith yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf a buddiol â'r gymuned leol i gynnig profiadau gwerthfawr i'r disgyblion. Mae staff yn trefnu gweithgareddau amrywiol sy'n hyrwyddo ymdeimlad o falchder disgyblion yn eu cymuned leol, ac yn dangos iddynt sut gallent ofalu amdani fel dinasyddion cyfrifol. Maent yn trefnu sesiynau casglu sbwriel i ddisgyblion hŷn yr ysgol, ac mae disgyblion yn creu posteri i annog i drigolion glirio llanast eu cŵn.

Mae'r pennaeth yn meithrin perthynas gref â rhieni ac maent yn gwerthfawrogi'r cyfathrebu clir rhwng yr ysgol a'r cartref. Mae'r rhieni'n cyfrannu at gynllunio cyfeiriad themâu eu plant ac yn elwa o gwrdd â gwahanol asiantaethau i gynorthwyo teuluoedd mewn nosweithiau rhieni yn yr ysgol. Mae arweinwyr yn gofyn am farn rhieni yn rheolaidd drwy holiaduron pwrpasol ac maent yn eu dadansoddi'n fanwl ac yn ymateb yn briodol i'w hymatebion.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad ar gyfer yr athrawon a'r cymorthyddion sy'n seiliedig ar eu hanghenion proffesiynol unigol a blaenoriaethau'r ysgol. Mae ymwybyddiaeth yr holl staff o'r safonau proffesiynol a'u perfformiad eu

hunain yn eu galluogi i fyfyrio'n bwrpasol ar yr hyn sydd eu hangen arnynt er mwyn gwella eu harfer ymhellach. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at ethos yr ysgol fel sefydliad sy'n hunanwella. O ganlyniad, mae gan yr ysgol dîm gwybodus a phroffesiynol sy'n cyfrannu'n gyson at godi safonau addysgol, lles a chymdeithasol disgyblion.

Mae Ysgol Bro Lleu yn rhan o bartneriaeth addysg Prifysgol Bangor, ac yn ysgol arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon. Golyga hyn fod staff yr ysgol yn gyfrifol am fentora nifer helaeth o fyfyrwyr yn flynyddol. Mae hyn yn atgyfnerthu agwedd gadarnhaol yr holl staff tuag at ddysgu proffesiynol.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn hynod gefnogol i'r ysgol ac mae ganddynt wybodaeth gynhwysfawr am berfformiad yr ysgol. Maent yn derbyn gwybodaeth gyfredol, reolaidd gan y pennaeth ac maent yn defnyddio eu profiadau o'u hymweliadau cyson i herio a chefnogi'r arweinwyr gyda'u gwaith. Yn ystod eu teithiau dysgu, maent yn cael darlun cyflawn o waith yr ysgol. Maent yn holi disgyblion am eu gwaith, yn craffu ar lyfrau ac yn rhan o drafodaethau proffesiynol am safon yr addysgu. Yn ogystal, maent yn myfyrio ar ba mor effeithlon yw eu cyfarfodydd drwy fonitro lefel yr her maent yn ei gosod ar gyfer arweinwyr. Maent yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus am arferion bwyta'n iach, yn dod â ffrwyth i'r ysgol ac yn deall pwysigrwydd diet cytbwys.

Mae'r pennaeth yn rheoli cyllid yr ysgol yn effeithiol gyda chymorth profiadol y corff llywodraethol. Caiff y grant datblygu disgyblion ei ddefnyddio'n bwrpasol i ddarparu rhaglenni cymorth i ddisgyblion ac i sicrhau bod pob disgybl yn mynychu teithiau ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn medru manteisio ar gyfleoedd addysgol priodol sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar eu safonau a lles.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol/aelodau’r pwyllgor rheoli’ trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/06/2023